

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 12fed o FAWRTH 2018 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00.

Presennol: Ian Evans (yn y gadair), Alan Lewis, Linda Williams, Heddwyn Jones, Tyssul Evans, Geoff Hewitt, Carol Williams, Margaret Rees, Meic Bowen, Geraint Rosser a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Tracey James ac Aled Williams

Materion Personol:-

1906 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Diolchwyd Bwyllgor Neuadd Pontiets am drefnu Cinio Cawl i ddechrau gweithgarwch dathlu 80 pen-blwydd y Neuadd. Hefyd llongyfarchwyd Manon Lloyd, Torcoed Fawr, Crwbin ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru yn gemau'r Gymanwlad yn Awstralia.

1907 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 05/02/2018 fel rhai cywir.

1908 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1884 - Rheilffordd Pontiets – Cafwyd adroddiad gan y Clerc a gobeithir y bydd y gwaith presennol yn gorffen cyn diwedd mis Mawrth.
Tud 3..Cofnod Rhif 1902 - Safle Ail-gylchu Meinciau - Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir am amcan-brys o osod Camera ar y safle.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1909 Cruse – Gofal Mewn Galar – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1910 Clwb Cyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1911 1st Pontyates Rangers – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £250.

Cynghorydd Geoff Hewitt Is-gadeirydd yn y gadair

Cynghorwyr Ian Evans a Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1912 Neuadd Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

Ian a Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1913 Carway Short Mat Bowls – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

1914 Bethel Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorydd Ian Evans yn y gadair

1915 Bobath Cymru – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1916 Clwb Rygbi Pontiets – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £950.

Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1917 Ysgol Gymunedol Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1918 Teenage Cancer Trust – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1919 Tenovus Cancer Care – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1920 Côr Glannau'r Gwendraeth - Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1921 Cyngor Sir Gar – Goleuadau Troedffyrdd 2018/2019 - Llythyr yn cadarnhau'r gost o £13198.19

1922 CFFI – Rali 2018 – Llythyr yn amgae 2 docyn.

1923 Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe – Llythyr oddiwrth Mr Adam Price A.C. yn amgae copi o lythyr i'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon.

1924 Un Llais Cymru – Aelodaeth 2018/2019 – Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r cyfraniad o £499.00.

Ceisiadau Cynllunio

1925 Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/36561 – Mr Stiles – Tu cefn i Heol y Meinciau, Pontiets – Datblygiad Annedd (Materion wedi eu cadw) – Dim Gwrthwynebiad.

b) Cais Rhif W/36798 – Simon Kemp – Capel Seilo, Carwe – Troi'r Capel yn Dŷ, Estyniad a Garej - Dim Gwrthwynebiad – ond nodir bod y cyfeiriad yn anghywir.

c) Cais Rhif W/36851 -Gower Quarrying Ltd. - Cwar Blaenyfan, Meinciau - Rhyddhau Amod Rhif 18 - Gwrthwynebiad ar sail sŵn.

Ch) Cais Rhif W/36858 – Ms Elen Hall – Bryngwendraeth, Llangyndeyrn – Estyniad a Garej – Dim Gwrthwynebiad.

d) Cais Rhif W/36861 - Gower Quarrying Ltd. - Cwar Blaenyfan, Meinciau - Rhyddhau Amod Rhif 25 - Gwrthwynebiad ar sail sŵn.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1926 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Chwefror 2018. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1927 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £402.71 (Mis Chwefror)

b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Chwefror)

c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Chwefror)

ch) HMRC (Treth)- £80.40 (Mis Chwefror)

d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Chwefror)

dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Chwefror)

e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Chwefror)- £182.00

f) Papur i'r Llungopiwr - £22.44

- ff) EDF - Trydan yn Doiledau'r Meinciau - £286.99
- g) Neuadd Pontiets – Rent y Llyfrgell - £1500.00
- ng) Cyngor Sir Gar – Goleuadau'r Troedffyrdd 2017/18 - £12216.09
- h) Pancreatic Cancer er cof am y diweddar Gynghorwr David Williams - £250.00

Materion Cynghorwyr

1928 Tyssul - Cysylltu gydag Arwel Price o'r Cyngor Sir i edrych ar y golau tu allan i Penrallt, Glyn Abbey.

1929 Ian - a) - Cysylltu â'r Cyngor Sir am ddiweddariad ar arolwg y Parciau.

b) - Bydd Cinio Blynyddol y Cyngor ar Nos Wener, 27/04/18 am 7.00 o'r gloch yn y Sgwâr a'r Cwmpawd, Pontiets.

Cyfarfod nesaf:- 9fed o Ebrill 2018 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch. (Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....